| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Gwener, 15 Tachwedd 2002** |
| **Lleoliad:** | **Clwb Cymdeithasol Penlan, Penlan, Abertawe** |
| **Teitl:** | **Atebion i Droseddau ac Anhrefn- Castell- nedd Port Talbot** |

**Datganiad ar y cyd gan yr Uwcharolygydd Bob McAllister,
Rhanbarth Castell-nedd Port Talbot, Heddlu De Cymru
a Ken Sawyers, Prif Weithredwr,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

Credwn yn gadarn bod Partneriaethau Troseddau ac Anhrefn 1998 wedi bod yn llwyddiant sylweddol. Fel Uwcharolygydd lleol yr Heddlu a Phrif Weithredwr Castell-nedd Port Talbot a chyd-Gadeiryddon y Bartneriaeth rydym yn gysylltiedig yn weithgar â materion Troseddau ac Anhrefn lleol.

Mae Moderneiddio Llywodraeth Leol hefyd wedi galluogi Castell-nedd Port Talbot i gael Aelod Cabinet â chyfrifoldeb arbennig dros Droseddau ac Anhrefn.

Mae'r bartneriaeth leol yn gryf ac yn llawn dychymyg – ac yn canolbwyntio ar weithredu ymarferol. Ond nid yw'n ddelfrydol. Mae gan rai partneriaid wahanol raddfeydd o gyfranogiad ariannol. Serch hynny, mae gweithio mewn partneriaeth wedi'i osod yn bendant o fewn Cynllun Cymunedol trosgynnol Castell-nedd Port Talbot fel un o'i brif themâu gyda thargedau ymestynnol. (Gweler Atodiad 1).

Yn ddiweddar cyhoeddwyd "Strategaeth Troseddau ac Anhrefn" a Chynllun Gweithredu tair blynedd, gan ganolbwyntio ar saith thema:-

1. Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

2. Lleihau Troseddau ac Anhrefn Ieuenctid a hybu nifer o weithgareddau dargyfeirio ar gyfer pobl ifanc

3. Mynd i'r Afael â chamddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol trwy agwedd gydlynus o atal, darganfod a thriniaeth

4. Lleihau lefel y troseddau a gofnodwyd trwy ddefnyddio data troseddau i dargedu gweithredu'n effeithiol

5. Lleihau nifer yr achosion o Drais yn y Cartref sy'n digwydd fwy nag unwaith

6. Parhau gyda rhaglen o Ddiogelu'r Cyhoedd; a

7. Gwella effeithiolrwydd y Bartneriaeth Troseddau ac Anhrefn

Dyma ragor o fanylion am dri o'r materion hyn:

1. **Mynd i'r afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf cafwyd mwy o bryder am niwsans ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae arolygon yn dangos bod hwn yn un o brif bryderon y rhan fwyaf o drigolion.

Mae CBS Castell-nedd Port Talbot a Heddlu De Cymru wedi arwyddo protocol ar gyfer gweithio ar y cyd yn yr achosion hyn gyda’r nod o sicrhau bod yr holl asiantaethau’n cydweithio i ddod o hyd i ateb priodol ar gyfer achosion “unigol”; a datblygu strwythur i fonitro a gwerthuso “contractau ymddygiad derbyniol” a “gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol”.

Sefydlwyd Grŵp Adolygu Achosion Troseddau ac Anhrefn i fynd i’r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a gellir cyflwyno nifer o opsiynau naill ai’n unigol neu ar y cyd.

**<u>Cosbi</u>**

Erlyniad troseddol

Troi allan

Gorchymyn Llys – Deddfau Tai

Erlyniad Niwsans Sŵn

Ardaloedd Gwahardd Yfed Alcohol

Erlyniad Safonau Masnach

Gorchymyn Ymddygiad Gwrth-gymdeithasol

Contractau Ymddygiad Derbyniol

**<u>Ymyrryd</u>**

<u>Newidiadau i’r amgylchedd ffisegol</u>

e.e. gosod gwell goleuadau stryd
cau lonydd cul a llwybrau troed
torri perthi

<u>Asiantaethau Cefnogi yn Cyfranogi</u>

- Gair ar y Stryd (Streetwise)
- Gwasanaeth Ieuenctid
- Tîm Troseddau Ieuenctid
- Cefnogaeth Gwaith Cymdeithasol

<u>Creu cyfleusterau newydd</u>

- Cwrs Sgrialu Moduron
- Mecaneg Ceir
- Parciau Sglefrfyrddio
- Mannau i Bobl Ifanc

Ar hyn o bryd rydym yn gwneud y canlynol:

| **Gweithredu** | **Nifer yr Achosion** | **Asiantaethau** |
|---|---|---|
| Cefnogaeth ac ymyrraeth | 7 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Addysg |
| Dan Ymchwiliad i'w dadansoddi | 5 | Yr Heddlu<br>Tai<br>Addysg |
| GYG – Monitro gweithredol tor-cyfraith | 2 | Tîm Troseddau Ieuenctid<br>Tai<br>Yr Heddlu |
| Defnyddio Deddfwriaeth Safonau Masnach/ Gwahardd Alcohol | 3 | Safonau Masnach<br>Yr Heddlu<br>Hamdden |
| Defnyddio troi allan | 1 | Tai<br>Yr Heddlu |
| Cychwyn gweithdrefn GYG | 4 | Yr Heddlu<br>Y Cyngor |
| Dim angen gweithredu pellach | 6 | |
| Cychwyn gweithdrefn CYD | 5 | Yr Heddlu<br>Y Cyngor |

Mae cael adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn wedi bod yn her ond ar hyn o bryd mae'r canlynol ar waith - tîm ymroddgar; taflenni a phosteri i lansio'r cynllun yn gyhoeddus; sefydlu system TG; a sefydlu cynllun wardeniaid peilot. Yn ddiweddar cymeradwywyd y cynllun fel un blaengar ac effeithiol.

2. **<u>Cyffuriau ac Alcohol</u>**

Mae holl fater camddefnyddio sylweddau wedi newid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Er bod y ddadl gyhoeddus yn canolbwyntio ar gyffuriau y brif broblem yw'r anawsterau a geir yn sgîl camddefnyddio alcohol yn ein cymunedau lleol a'n canolfannau trefol.

Dyma rai ystadegau gweithredu diweddar ar gyfer ardal Morgannwg ar gyffuriau ac alcohol (Pen-y bont; Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe):

(a) alcohol yw'r brif broblem ac amcangyfrifir bod 16,000 o oedolion yn yr ardal yn gaeth i alcohol;

(b) nodwyd bod tua 8,000 o oedolion yn gaeth i gyffuriau yn yr ardal ond nid yw 80% o'r rhai sy'n gaeth i gyffuriau neu alcohol yn cysylltu ag unrhyw wasanaethau;

(c) roedd 65% o'r rhai sy'n defnyddio heroin yn 15-25 oed wrth ddechrau ei ddefnyddio, tra bod 5% arall dan 15.

Mae'r pris isaf erioed am Gyffuriau Dosbarth A a'r ffaith eu bod yn hawdd eu cael wedi golygu bod rhaid ailasesu'n gyson ymateb y TCCA (DAAT) i beryglon defnyddio cyffuriau ar hap yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae wedi gwneud

cynllunio gweithredu effeithiol, naill ai yn y sector statudol neu'r sector anstatudol, yn fwy heriol fyth.

Wrth lwc mae'r angen am fwy o fuddsoddiad yn y gwasanaethau trin yn cael ei gydnabod yn genedlaethol erbyn hyn. Yn arbennig credwn y dylid talu teyrnged i Mrs. Edwina Hart, y Gweinidog sydd wedi datgan ei phenderfyniad personol i wneud mwy am y mater yng Nghymru, er ei fod hefyd yn gyfrifoldeb y Swyddfa Gartref.

Credwn bod tystiolaeth eglur y bydd ehangu'n sylweddol y gwasanaethau trin cyffuriau'n effeithiol yn lleihau costau ysbytai, trais, costau lles a throseddau sy'n ymwneud â chyffuriau ac y bydd triniaeth gynnar a threfniadau eraill yn arwain at fanteision sylweddol – sefyllfa ennill, ennill i bawb.

O ran amharu ar gyflenwad, er y bydd hyn yn broblem bob amser, mae'r Timau Gweithredu lleol wedi bod yn gwneud gwaith arloesol. Cafwyd yr Ymgyrch "Daliwch y Deliwr" yn Abertawe, sy'n cael ei gefnogi gan y South Wales Evening Post ond cyn hyn cafwyd Tîm Gweithredu Lleol yng Nghastell-nedd Port Talbot sef MAD – "Melin yn erbyn Cyffuriau", a ddilynwyd yn fuan gan ymgyrch yn Ystalyfera a STOP – "Sandfields yn Herio'r Delwyr".

Roedd ymgyrch Melin yn arbennig yn enghraifft wych o sut y gall cymuned uno gyda phobl broffesiynol i achub cyfle a gwneud gwahaniaeth go iawn. Sefydlwyd llinell gyflym â'r Heddlu ac arestiwyd nifer o bobl.

## 3. **Troseddau Ieuenctid**

Mae gan Gastell-nedd Port Talbot nifer o fentrau lleol, e.e:

- gweithiwr tân rhan amser i edrych ar Losgi'n Fwriadol, Troseddau Cerbydau etc.

- partneriaeth â'r Asiantaeth Cyffuriau WGCADA i edrych ar y cynllun Arestio/Cyfeirio a delio'n adeiladol â'r rhai sy'n defnyddio cyffuriau.

- gweithiwr cyswllt â dioddefwyr ymroddedig sy'n ymgynghori â dioddefwyr ac yn cynrychioli eu safbwynt ym mhob achos lle nodwyd dioddefwr pendant. Hefyd o fewn y broses Gorchymyn Cyfeirio i fynd gyda'r dioddefwr i'r Panel Troseddwyr Ieuenctid, ei annog i fynegi ei farn a'i gefnogi trwy'r holl broses.

- mae Rhaglen Cynhwysiad Ieuenctid yn Sandfields, a fydd yn cael ei hariannu hyd at 2006 gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, wedi cyfrannu at leihau troseddau yn yr ardal. Mae'r polisi o dargedu pobl ifanc anfodlon yn y gymuned wedi bod yn strategaeth lwyddiannus dros ben.

- mae 5 ardal leol yn gysylltiedig â rhaglen SPLASH Cymru gan ddarparu gweithgareddau penodol yn ystod gwyliau'r ysgol i bobl ifanc 9-17 oed.

- mae troseddwyr ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden penodol a all ymestyn y tu hwnt i'w gorchmynion statudol, gan gynnwys, er enghraifft, partneriaeth gyda chynllun Gwobrau Dug Caeredin.

- mae mentrau eraill ar hyn o bryd yn cynnwys y Criw Croch, a fu'n gweithredu mewn 55 ysgol gynradd yn 2002 gan helpu 2000 o blant.

Mae Tîm Troseddau ac Anhrefn yr Awdurdod Lleol yn rhannu Gorsaf yr Heddlu ym Mhort Talbot.  Dyma fynegiad gweladwy o'n partneriaeth.

4. **<u>Meysydd sydd yn Achosi Pryder</u>**

(a) Cafwyd pryder cynyddol am ddealltwriaeth y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a Llywodraeth Westminster o faterion sy'n effeithio ar Gymru.

(b) Yn Ne Cymru mae pryder am ymateb y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol i ariannu a darparu adnoddau ar gyfer y Timau Troseddau Ieuenctid.

(c) Mae cael ymarferwyr medrus i gyflwyno unrhyw wasanaethau trin cyffuriau newydd yn dal i fod yn her.

(ch) Mater allweddol yw'r angen am ariannu hir dymor (3–5 mlynedd), ar gyfer asiantaethau anstatudol ac felly dwyn i ben y gyfundrefn ariannu byr dymor sy'n mynd â chymaint o'u hegni, gan arwain yn y pen draw at ansefydlogrwydd ac ansicrwydd ariannol.

(d) Hefyd mae'n rhaid i unrhyw arian newydd ychwanegu at werth yn hytrach na chymryd lle unrhyw arian byr dymor cynharach!

Mae'n bleser gennym esbonio unrhyw un o'r materion Troseddau ac Anrhefn hyn ymhellach. Bydd yr Uwcharolygydd McAllister yn siarad am blismona Cymunedol a chyflawni'r Targedau Perfformiad.

Yr Uwcharolygydd Bob McAllister
Gorsaf Heddlu Castell-nedd

Ken Sawyers
Canolfan Ddinesig Port Talbot

**Atodiad A**

**Ni ellir gorbwysleisio effeithiau posibl troseddau anc anhrefn ar ansawdd bywyd pobl. Er bod nifer yr achosion o weithredau troseddol ac ymddygiad anhrefnus yn isel o'u cymharu â llawer o ardaloedd eraill, gall yr effaith ar ddioddefwyr fod yn bellgyrhaeddol, ac ymhell y tu hwnt i ddifrifoldeb y digwyddiad ei hun.  Yn yr un modd, gall ofn troseddau ac anhrefn atal pobl rhag cyflawni eu gweithgareddau arferol.**

Mae arolygon wedi tynnu sylw at bryderon ynghylch materion sy'n amrywio o ofn yr henoed wrth fynd allan yn y nôs i bryderon pobl ifanc ynghylch pwysau oddi wrth gyfoedion i gymryd cyffuriau.  Mae gwybodaeth am y lefelau troseddau gwirioneddol yn datgelu angen am atal troseddau ceir, bwrgleriaeth, troseddau ymosodol a darparu cyffuriau.

Bu'r Ddeddf Troseddau ac Anhrefn yn gatalydd ar gyfer llunio partneriaeth effeithiol rhwng y Cyngor, yr Heddlu a phartneriaid eraill.  Maent i gyd yn cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau troseddau ac anhrefn.  Cyhoeddodd y Cyngor a'r Heddlu strategaeth troseddau

ac anhrefn dair blynedd yn Ebrill 1998, wedi cynnal archwiliad eang o lefelau troseddau ac ymddygiad anghymdeithasol yng Nghastell-nedd Port Talbot. Gweithiwyd y strategaeth trwy gyfres o gynlluniau gweithredu sy'n ymwneud â: lleihau ofn troseddu; lleihau ofn trais yn y cartref ac achosion ohono, annog rhoi gwybod am achosion; lleihau troseddau ac anhrefn ieuenctid; cynyddu diogelwch y cyhoedd; lleihau camddefnyddio sylweddau; a monitro cost troseddau ac anhrefn.

Mae gwaith eisoes wedi cychwyn ar yr archwiliad troseddau ac anhrefn nesaf a fydd yn arwain at ddatblygu strategaeth arall dair blynedd o Ebrill 2002. Mae llawer o'r amcanion a'r targedau sy'n dilyn yn seiliedig ar y strategaeth a'r cynlluniau gweithredu cyfredol a bydd angen i'r rhain gael eu diwygio yng ngoleuni'r strategaeth newydd.

**Ein Gweledigaeth**

***Ein gweledigaeth yw y byddwn, erbyn 2012, wedi:***

- *cyflawni a chynnal gostyngiad sylweddol o flwyddyn i flwyddyn o ran lefel troseddu yn gyffredinol, yn enwedig o ran troseddau ceir, bwrgleriaeth, troseddau cyffuriau a throseddau ymosodol.*

- *Cyflawni gwelliant sylweddol, a fesurir mewn arolwg, o ran ymdeimlad trigolion o'u diogelwch yn y gymuned.*

- *darparu amrywiaeth eang o weithgareddau cymdeithasol gwrthdyniadol i bobl ifanc, a'u cadw rhag bod yn debygol o ddechrau troseddu neu ymddwyn yn anghymdeithasol.*

Mae'r partneriaid allweddol wrth fynd i'r afael â throseddau ac anhrern yn cynnwys nid yn unig yr Heddlu a'r Cyngor ond hefyd y Gwasanaeth Prawf, Llysoedd yr Ynadon, y Tîm Gweithredu Lleol ar Gamddefnyddio Sylweddau, y Grwp Iechyd Lleol, y Tîm Troseddau Ieuenctid a'r Gwasanaeth Tân. Mae gan y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol rôl yr un mor bwysig i chwarae, gan gynnwys cyrff megis Gwarchod y Gymdogaeth, Cefnogaeth i Ddioddefwyr, Llaw sy'n Tywys, Cymorth i Fenywod a Chyngor Gorllwein Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau.

**Ein Hamcanion**

***Dyma'r hyn yr ydym am ei wneud gyda'n gilydd:***

*(a) Cynnal a gwella'r ymgyrch heddlu cymunedol lleol, gan ddatblygu ymagweddiad strategol a gwybodus at ymateb i weithgareddau troseddu penodol yn ein cymunedau.*

*(b) Parhau i ddarparu ymgyrchoedd diogelwch cymunedol ac atal troseddu wedi'u targedu'n lleol, gyda'r nôd o leihau ofn troseddau, achosion o ymddygiad anghymdeithasol a chynyddu diogelwch y cyhoedd.*

*(c) Mynd i'r afael â phroblemau niwsans mewn cymdogaethau ac ymddygiad nghymdeithasol drwy ddefnyddio ymagweddiad aml-asiantaeth ac amrywiaeth o ddatrysiadau, gan lunio gorchmynion ymddygiad anghymdeithasol dim ond lle bo raid.*

*(ch) Ehangu a gwella'r rhwydwaith o gynlluniau gwarchod cymdogaeth lleol, gan barhau i weithio gydaa chynlluniau cyfredol a'u cefnogi.*

*(d) Gweithio gyda grwpiau gwirfoddol a chymunedol i ddod o hyd i ddatrysiadau lleol i broblemau lleol i broblemau troseddau ac anhrefn lleol.*

*(dd) Hybu'r safon "dilyniad diogel" gan sicrhau bod cyfleusterau a datblygiadau newydd wedi'u cynllunio i "gau allan" troseddau.*

*(e) Cynyddu ymwybyddiaeth o raddfa a lefelau trais yn y cartref, gan sicrahu bod dioddefwyr yn cael eu hannog i gysylltu â rhywun a gofyn am help.*

*(f) Sicrhau bod unrhyw fylchau yn narpariaeth y gwasanaeth ar gyfer dioddefwyr trais yn y cartref yn cael eu nodi a bod ymgyrchoedd ymarferol yn cael eu datblygu i gwrdd â'r gofynion hynny sydd heb eu hateb.*

*(ff) Sicrahu bod troseddwyr ifanc yn symud yn gyfym trwy'r system cyfiawnder troseddol.*

*(g) Darparu ymgyrchoedd i atal troseddwyr ifanc rhag troseddu eto a pharhau i ddatblygu ymgyrchoedd newydd.*

*(ng) Parhau i ddatblygu ymagweddiad aml-asiantaeth at ddarparu gweithgareddau gwrthdyniadol i bobl ifanc trwy ymgynghori â phobl ifanc a darparwyr ieuenctid.*

*(h) Darparu cyfleoedd hyfforddiant ar gyfer pobl ifanc ar faterion troseddau an anhrefn, yn enwedig o ran camddefnyddio cyffuriau ac alcahol, ac ar gyfer gweithwyr y rheng flaen o ran trafod ymddygiad ymosodol ac anghymdeithasol.*

*(i) Cynyddu diogelwch y cyhoedd trwy ddefnyddio cynlluniau rheoli traffig yn effeithiol i leihau goryrru, gwella goleuadau stryd i atal troseddu ac ymddygiad anghymdeithasol, a symud cerbydau a losgwyd neu a adawyd yn gyflym.*

*(l) Defnyddio'r rhwydwaith CCTV yn fwy effeithiol, gan ei estyn yn ôl y galw a thargedu'r ardaloedd hynny lle mae troseddu ac ymddygiad anghymdeithasol yn amlew.*

*(ll) Cynyddu nifer y meysydd parcio sy'n cyrraedd y safonau ar gyfer "staws maes parcio diogel".*

*(m) Ehangu a gwells gwasanaethau atal a thrin camddefnyddio sylweddau, yn enwedig ar gyfer pobl ifanc.*

*(n) Mynd i'r afael ag agweddau anghyfrifol at werthu ac yfed alcohol lleihau nifer y troseddau sy'n gysylltiedig ag alcahol.*

*(o) Annog y sector preifat i fod yn rhan o ymgyrchoedd diogelwch cymunedol ac atal troseddu.*

*(p) Gweithio gyda'r cyfryngau lleol i ddarparu cyhoeddusrwydd positif am y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â throseddau ac anhrefn.*

**Targedau Penodol**

***Rhai targedau penodol erbyn y flwyddyn 2006:***

*1. Gostwng lefel gyffredinol y troseddau a gofnodir o 15%*

*2. Lleihau troseddau ceir o 30% fesul 1000 o boblogaeth.*

*3. Lleihau bwrgleriaeth o 25% fesul 1000 o aelwydydd.*

*4. Lleihau troseddau treisgar o 15% fesul 1000 o boblogaeth.*

*5. Cynyddu nifer y rhai a gaiff eu harestio am gyffuriau Dosbarth A o 100% ac arestiadau delio cyffuriau Dosbarth A o 100%.*

*6. Lleihau nifer yr achosion a gofnodir o ymddugiad anghymdeithasol.*

*7. Lleihau'r achosion o drais sy'n digwydd fwy nag unwaith yn y cartref o 10%.*

*8. Gostwng ofn troseddau o 5%.*

*9. Cynyddu nifer yr aelwydydd sydd yn dod o dan gynllun gwarchod cymdogaeth o 5%.*

*10. Lleihau'r amser a gymerir i droseddwyr ifanc fynd trwy'r system cyfiawnder troseddol i'r safon genedlaethol.*

*11. Cynyddu nifer ac amrywiaeth y gweithgareddau ieuenctid a'r cyfleoedd addysgol ar gyfer pobl ifanc, yn enwedig y rheiny sydd mewn perygl o droseddu.*

*12. Lleihau'r anafiadau difrifol a'r marwolaethau yn sgîl damweiniau ffoedd o 50% a'r anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â phlant o 50%.*